NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

# A YW EICH YSGOL CHI'N CYDYMFFURFIO Â'R DDEDDFWRIAETH CYDRADDOLDEB?

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyfarwyddyd i aelodau

**WNAETH HI HYNNY?**

WNAETH HI HYNNY?

Yn 2012, roedd hi'n ofynnol i'ch ysgol gyhoeddi gwybodaeth i ddangos sut mae'n cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ynghyd â gosod amcanion cydraddoldeb.

**YDY HI'N GWNEUD HYNNY?**

YDY HI'N GWNEUD HYNNY?

Mae'n ofynnol bod eich ysgol yn diweddaru'r wybodaeth honno a gyhoeddir unwaith y flwyddyn **o leiaf**.

**WNAETH HI HYNNY?**

WNAETH HI HYNNY?

Erbyn 2016, **fan bellaf**, dylai eich ysgol fod wedi cyhoeddi amcanion newydd. Mae'n ofynnol ei bod hi'n gwneud hynny bob pedair blynedd **o leiaf**.

**YDYN NHW'N GWNEUD HYNNY?**

YDYN NHW'N GWNEUD HYNNY?

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gofyn i reolwyr a chorff llywodraethu eich ysgol, wrth wneud penderfyniadau a datblygu polisïau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

1. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;
3. feithrin cysylltiadau da ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig – rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

## Beth mae rhoi ‘sylw dyledus’ yn ei olygu i ysgolion?

Mae’n golygu:

- bod yn rhaid i ysgol asesu penderfyniadau a mesur eu cydraddoldeb;
- y dylid ystyried goblygiadau cydraddoldeb cyn ac wrth i bolisi gael ei ddatblygu;
- y dylid ystyried pob llinyn o’r Ddyletswydd yn ymwybodol ac ar wahân (mae dileu gwahaniaethu’n wahanol i hyrwyddo cydraddoldeb);
- y dylid asesu a oes risg o unrhyw effaith niweidiol a allai godi o bolisi neu benderfyniad;
- nad ymarfer ticio bocs yn unig ydy hwn; a
- bod yn rhaid i ysgolion gyflawni’r Ddyletswydd hon eu hunain – a chofnodi’r holl gamau gweithredu y maent wedi’u cymryd i gyflawni’r Ddyletswydd.

**Cysylltwch â NASUWT ar 03330 145550 i gael cyngor am beth i’w wneud nesaf os nad yw eich ysgol yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.**

## Beth yw'r nodweddion gwarchodedig?

- oedran
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gred
- hil
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd
- statws priodasol neu bartneriaeth sifil (dim ond ar gyfer amcan cyntaf y Ddyletswydd)

**Trwy gael ffocws ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, bydd eich ysgol yn gallu: osgoi arferion gwahaniaethol ac integreiddio cydraddoldeb i mewn i'w 'busnes' craidd; adeiladu amgylchedd gwaith cefnogol, sy'n arwain at well perfformiad/mwy o gynhyrchiant, gan alluogi'r ysgol i dynnu ar ystod ehangach o dalent; a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cydraddoldeb, sy'n gallu arwain at wneud gwell penderfyniadau a datblygu gwell polisïau.**

## Mae gennych yr hawl i:

- dderbyn ystyriaeth i'ch anghenion pan fydd unrhyw bolisi'n cael ei ddatblygu;
- dderbyn cyfle cyfartal (lle bo'n bosibl);
- wybod bod unrhyw gamdriniaeth, ar sail unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig, yn mynd i dderbyn sylw ac na fydd yn cael ei oddef;
- beidio cael eich bwlio;
- gael eich trin fel unigolyn; a
- chael eich trin gydag urddas a pharch gan bawb.

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Hillscourt Education Centre
Rose Hill, Rednal
Birmingham B45 8RS
Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

siaradwch â ni

17/04025